



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
2 Samuel 11: 1-26; 12: 1-25	An illustration showing King David on the left, looking distressed with his hand to his face, and Nathan on the right, pointing towards him. The text '2 Samuel 11:1-12:25' is at the top, and 'DAVID, BATHSHEBA AND NATHAN'S PARABLE' is at the bottom. The website 'www.freebibleimages.org' is also visible.	
1 Yn y gwanwyn, sef yr adeg pan fyddai brenhinoedd yn arfer mynd i ryfela, dyma Dafydd yn anfon Joab a'i fyddin allan. Dyma Joab a byddin Israel yn trechu byddin yr Ammoniaid a chodi gwarchae at ddinas Rabba. Ond arhosodd Dafydd yn Jerwsalem.	An illustration of King David in a yellow chariot, wearing a red cape, with soldiers on horseback behind him. The scene is set in a landscape with trees and a blue sky.	
2 Yn hwyr un p'nawn, dyma Dafydd yn codi a mynd i gerdded ar do fflat y palas. O'r fan honno dyma fe'n gweld gwraig yn ymolchi. Roedd hi'n wraig arbennig o hardd. Dyma Dafydd yn anfon rhywun i ddarganfod pwy oedd hi, a daeth hwnnw yn ôl gyda'r ateb, "Bathseba, gwraig Wreia yr Hethiad, ydy hi." Roedd Wreia yn ymladd ym myddin Dafydd.	An illustration of Bathsheba washing herself in a red tub. She is wearing a blue and white patterned dress. A woman in a yellow dress stands behind her, and a man in a green tunic is visible in the background.	

- 
- 3 Felly dyma Dafydd yn anfon negeswyr i'w nôl hi. Ac wedi iddi ddod dyma fe'n cael rhyw gyda hi. Yna dyma hi'n mynd yn ôl adre.



- 
- 4 Ymhen ychydig, pan wnaeth hi ddarganfod ei bod hi'n feichiog, dyma hi'n anfon neges at Dafydd i ddweud wrtho.



- 
- 5 Felly dyma Dafydd yn anfon neges at Joab, yn gofyn iddo anfon Wreia yr Hethiad ato. A dyma Joab yn gwneud hynny.



- 
- 6 Pan gyrhaeddodd Wreia, dyma Dafydd yn ei holi am hanes y rhyfel. Yna dyma Dafydd yn dweud wrtho, "Dos adre i ymlacio." Ond wnaeth Wreia ddim mynd adre. Arhosodd gyda'r gweision eraill wrth ddrws y palas. Doedd Wreia ddim yn meddwl ei fod'n iawn iddo ymlacio adre tra fod y milwyr eraill yn gwersylla yn yr awyr agored.



- 
- 7 Drannoeth dyma Dafydd yn gwahodd Wreia i fwyta ac yfed gydag e, ac yn ei feddwi. Ond pan aeth Wreia allan gyda'r nos dyma fe'n cysgu allan eto gyda gweision ei feistr. Aeth e ddim adre. Roedd cynllwyn y brenin wedi methu eto.



- 
- 8 Y bore wedyn, dyma Dafydd yn gofyn i Wreia fynd â llythyr i Joab. Dyma beth roedd wedi ei ysgrifennu yn y llythyr, "Rho Wreia yn y rheng flaen lle mae'r brwydro galetaf. Yna ciliwch yn ôl oddi wrtho, a'i adael i gael ei daro a'i ladd."



- 
- 9 Dyma'n union beth wnaeth Joab. Dyma filwyr y gelyn yn mentro allan i ymosod. Cafodd Wreia a nifer o filwyr eraill Dafydd eu lladd.



- 
- 10 Pan glywodd Bathseba fod ei gŵr wedi marw, bu'n galaru amdano. Ond wedi i'r cyfnod o alaru ddod i ben, dyma Dafydd yn anfon amdani a dod â hi i'w balas. Dyma hi'n dod yn wraig iddo, a chafodd fab iddo.



- 
- 11 Doedd yr ARGLWYDD ddim yn hapus o gwbl am beth roedd Dafydd wedi ei wneud, a dyma fe'n anfon y proffwyd Nathan at Dafydd.



- 
- 12 Daeth ato a dweud wrtho: "Un tro roedd yna ddau ddyn yn byw yn rhyw dre. Roedd un yn gyfoethog a'r llall yn dlawd. Roedd gan y dyn cyfoethog lond gwlad o ddefaid a gwartheg. Ond doedd gan y dyn tlawd ddim ond un oen banw fach roedd wedi ei phrynu a'i magu. Roedd yr oen wedi tyfu gydag e a'i blant. Roedd yn bwyta ac yn yfed gyda nhw, ac yn cysgu yn ei freichiau, fel petai'n ferch fach iddo.



- 
- 13 "Cafodd y dyn cyfoethog ymwelydd. Ond doedd e ddim am ladd un o'i ddefaid neu ei wartheg ei hun i wneud bwyd iddo. Felly dyma fe'n cymryd oen y dyn tlawd a gwneud pryd o fwyd i'w ymwelydd o hwnnw."



- 
- 14 Roedd Dafydd wedi gwylltio'n lân pan glywodd hyn. Dwedodd wrth Nathan, "Mor sicr â bod yr ARGLWYDD yn fyw, mae'r dyn yna'n haeddu marw! Rhaid iddo roi pedwar oen yn ôl i'r dyn tlawd am wneud y fath beth, ac am fod mor ddideimlad!"



- 
- 15 Dyma Nathan yn ateb Dafydd, "Ti ydy'r dyn! Dyma mae'r ARGLWYDD yn ei ddweud: 'Fi wnaeth dy osod di yn frenin ar Israel. Fi hefyd wnaeth dy achub di oddi wrth Saul. Dw i wedi rhoi eiddo dy feistr i ti, a'i wragedd. A dyma fi'n rhoi pobl Israel a Jwda i ti hefyd. A petai hynny ddim yn ddigon byddwn wedi rhoi lot mwy i ti. Pam wyt ti wedi fy sarhau i, yr ARGLWYDD, drwy wneud peth mor ofnadwy? Ti wedi lladd Wreia yr Hethiad, a chymryd ei wraig yn wraig i ti dy hun. Felly bydd cysgod y cleddyf arnat ti a dy deulu bob amser."



- 
- 16 Dyma Dafydd yn ateb, "Dw i wedi pechu yn erbyn yr ARGLWYDD." "Wyt," atebodd Nathan, "ond mae'r ARGLWYDD wedi maddau y pechod yma. Dwyt ti ddim yn mynd i farw. Ond am dy fod ti wedi bod mor amharchus o'r ARGLWYDD, bydd y plentyn gafodd ei eni yn marw."



- 
- 17 Dyma'r ARGLWYDD yn gwneud y babi gafodd gwraig Wreia i Dafydd yn sâl iawn A dyma Dafydd yn mynd ati i bledio'n daer ar yr ARGLWYDD i'w wella. Roedd yn mynd heb fwyd, ac yn cysgu ar lawr bob nos.



- 
- 18 Ar ôl saith diwrnod dyma'r plentyn yn marw. Dyma Dafydd yn codi oddi ar lawr, yn ymolchi, rhoi olew ar ei wyneb a newid ei dhillad. Aeth i gysuro ei wraig, Bathseba.



- 
- 19 Ymhen amser cafodd fab, a dyma nhw'n ei alw'n Solomon. Roedd yr ARGLWYDD yn caru'r plentyn, a dyma fe'n rhoi neges drwy'r proffwyd Nathan yn dweud ei fod i gael ei alw'n Iedida, sef "Mae'r ARGLWYDD yn ei garu." Daeth Solomon yn frenin ar Israel ar ôl i'w dad farw.



- 
- 20 Cyfieithwyd gan  
[www.beibl.net](http://www.beibl.net)



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---